# Gellir cael copi print bras o'r Hysbysiad hwn oddi wrth: Y Gangen Orchmynion, Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.

## GORCHYMYN CEFNFFORDD YR A483 (CYFFORDD 1, CYFNEWIDFA RHIWABON I'R FFIN RHWNG CYMRU A LLOEGR, BWRDEISTREF SIROL WRECSAM) (GWAHARDDIADAU TRAFFIG DROS DRO A THERFYN CYFLYMDER 40 MYA) 201-

MAE GWEINIDOGION CYMRU yn bwriadu gwneud Gorchymyn o dan adran 14 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984 ymhen dim llai na 7 niwrnod i ddyddiad yr Hysbysiad hwn. Mae angen y Gorchymyn arfaethedig er mwyn gwneud gwaith ar Gefnffordd yr A483 rhwng Cyffordd 1, Cyfnewidfa Rhiwabon a'r Ffin rhwng Cymru a Lloegr ym Mwrdeistref Sirol Wrecsam.

Disgwylir y bydd y gwaharddiadau a'r cyfyngiad a ganlyn, y codir arwyddion priodol yn eu cylch, yn dod i rym am 19:00 o'r gloch ar 1 Ebrill 2015 a byddant yn weithredol yn ôl y gofyn hyd 06:00 o'r gloch ar 18 Rhagfyr 2015 neu hyd nes y caiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol. Disgwylir y bydd y gwaith arfaethedig yn digwydd o 1 Ebrill 2015 hyd 17 Gorffennaf 2015 ac o 1 Medi 2015 hyd 18 Rhagfyr 2015 ond bydd yr amserau a'r dyddiadau yn amrywio o safle i safle.

Effaith y Gorchymyn arfaethedig fydd gwneud y canlynol dros dro:-

i) gwahardd pob cerbyd, ac eithrio cerbydau a ddefnyddir gan y gwasanaethau brys ac ar gyfer y gwaith, rhag mynd ar y darnau o'r gefnffordd a bennir yn yr Atodlen i'r Hysbysiad hwn. Cynhwysir hyn fel cynllun wrth gefn a rhagwelir mai am gyfnodau byr y bydd y darnau o'r gefnffordd ar gau ac ni chynigir llwybr arall;

ii) gwahardd pob cerbyd, ac eithrio cerbydau a ddefnyddir gan y gwasanaethau brys ac ar gyfer y gwaith, rhag goddiweddyd pan fydd y terfyn cyflymder o 40 mya mewn grym, ar y darnau o'r gefnffordd a bennir yn yr Atodlen i'r Hysbysiad hwn;

iii) gosod terfyn cyflymder o 40 mya ar y darnau o'r gefnffordd a bennir yn yr Atodlen i'r Hysbysiad hwn.

Dim ond yn ystod y dyddiadau a bennir uchod y disgwylir i'r Gorchymyn arfaethedig fod yn weithredol ac mae'n ddilys am gyfnod o 12 mis ar y mwyaf.

**M D BURNELL**
Y Gangen Orchmynion, Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru.

### YR ATODLEN
### Prif Gerbytffordd a Ffyrdd Ymuno ac Ymadael yr A483

1. Y darn hwnnw o'r gefnffordd sy'n ymestyn o bwynt 800 metr i'r de o ganolbwynt Cyffordd 1 (Cyfnewidfa Rhiwabon) i bwynt 800 metr i'r gogledd o ganolbwynt Cyffordd 2 (Cyfnewidfa Johnstown).
2. Y darn hwnnw o'r gefnffordd sy'n ymestyn o bwynt 800 metr i'r de o ganolbwynt Cyffordd 2 (Cyfnewidfa Johnstown) i bwynt 800 metr i'r gogledd o ganolbwynt Cyffordd 3 (Cyfnewidfa Croesfoel).
3. Y darn hwnnw o'r gefnffordd sy'n ymestyn o bwynt 800 metr i'r de o ganolbwynt Cyffordd 3 (Cyfnewidfa Croesfoel) i bwynt 800 metr i'r gogledd o ganolbwynt Cyffordd 4 (Cyfnewidfa Ffordd Rhuthun).
4. Y darn hwnnw o'r gefnffordd sy'n ymestyn o bwynt 800 metr i'r de o ganolbwynt Cyffordd 4 (Cyfnewidfa Ffordd Rhuthun) i bwynt 800 metr i'r gogledd o ganolbwynt Cyffordd 5 (Cyfnewidfa Ffordd yr Wyddgrug).
5. Y darn hwnnw o'r gefnffordd sy'n ymestyn o bwynt 800 metr i'r de o ganolbwynt Cyffordd 5 (Cyfnewidfa Ffordd yr Wyddgrug) i bwynt 800 metr i'r gogledd o ganolbwynt Cyffordd 6 (Cyfnewidfa Gresffordd).
6. Y darn hwnnw o'r gefnffordd sy'n ymestyn o bwynt 800 metr i'r de o ganolbwynt Cyffordd 6 (Cyfnewidfa Gresffordd) i bwynt 800 metr i'r gogledd o ganolbwynt Cyffordd 7 (Cyfnewidfa'r Orsedd).
7. Y darn hwnnw o'r gefnffordd sy'n ymestyn o bwynt 800 metr i'r de o ganolbwynt Cyffordd 7 (Cyfnewidfa'r Orsedd) tua'r gogledd i'r ffin rhwng Cymru a Lloegr.

# A copy of this Notice in larger print can be obtained from Orders Branch, Transport, Welsh Government, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ.

## THE A483 TRUNK ROAD (JUNCTION 1, RUABON INTERCHANGE TO THE WALES/ ENGLAND BORDER, WREXHAM COUNTY BOROUGH) (TEMPORARY TRAFFIC PROHIBITIONS AND 40 MPH SPEED LIMIT) ORDER 201-

THE WELSH MINISTERS propose, in not less than seven days from the date of this Notice, to make an Order under section 14 of the Road Traffic Regulation Act 1984 which is necessary because works are being undertaken on the A483 Trunk Road between Junction 1, Ruabon Interchange and the Wales/England Border in the County Borough of Wrexham.

The following prohibitions and restriction, which will be signed accordingly, are expected to come into force at 19:00 hours on 1 April 2015 and will operate as required until 06:00 hours on 18 December 2015 or until the temporary traffic signs are permanently removed. The proposed works are expected to take place from 1 April 2015 until 17 July 2015 and from 1 September 2015 until 18 December 2015 but times and dates will vary from site to site.

The effect of the proposed Order will be to temporarily:-

i) prohibit all vehicles, with an exemption for emergency services and works vehicles, from proceeding in the lengths of the trunk road specified in the Schedule to this Notice. This is included as a contingency and it is envisaged that closures will be for short periods and no alternative route is proposed;

ii) prohibit all vehicles, with an exemption for emergency services and works vehicles, from overtaking when the temporary 40 mph speed limit is in force, in the lengths of the trunk road specified in the Schedule to this Notice;

iii) impose a 40 mph speed limit in the lengths of the trunk road specified in the Schedule to this Notice.

The proposed Order is only expected to operate during the dates specified above and is valid for a maximum period of 12 months.

**M D BURNELL**
Orders Branch, Transport, Welsh Government

### SCHEDULE
### A483 Main Carriageway and Slip Roads

1. That length of the trunk road which extends from a point 800 metres south of the centre-point of Junction 1 (Ruabon Interchange) to a point 800 metres north of the centre-point of Junction 2 (Johnstown Interchange).
2. That length of the trunk road which extends from a point 800 metres south of the centre-point of Junction 2 (Johnstown Interchange) to a point 800 metres north of the centre-point of Junction 3 (Croesfoel Interchange).
3. That length of the trunk road which extends from a point 800 metres south of the centre-point of Junction 3 (Croesfoel Interchange) to a point 800 metres north of the centre-point of Junction 4 (Ruthin Road Interchange).
4. That length of the trunk road which extends from a point 800 metres south of the centre-point of Junction 4 (Ruthin Road Interchange) to a point 800 metres north of the centre-point of Junction 5 (Mold Road Interchange).
5. That length of the trunk road which extends from a point 800 metres south of the centre-point of Junction 5 (Mold Road Interchange) to a point 800 metres north of the centre-point of Junction 6 (Gresford Interchange).
6. That length of the trunk road which extends from a point 800 metres south of the centre-point of Junction 6 (Gresford Interchange) to a point 800 metres north of the centre-point of Junction 7 (Rossett Interchange).
7. That length of the trunk road which extends from a point 800 metres south of the centre-point of Junction 7 (Rossett Interchange) northbound to the Wales/ England border.

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.cymru.gov.uk

BUDDSODDWYR MEWN POBL | INVESTORS IN PEOPLE